# Cofnodion Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

**2/12/25**

**Presennol:** Y Cynghorwyr Alwyn Roberts (cadeirydd), Llinos Edwards, Lis Puw, Alwyn Jones, Euros Roberts, Beryl Griffiths, Dewi Jones a Huw Roberts.
**Hefyd yn bresennol:** Alan Jones Evans (Aelod Lleol Cyngor Gwynedd) a Huw Antur (Clerc a Swyddog Cyllid).

**Cyhoedd:** Neb yn bresennol.

**3263 Croeso:** Fe groesawyd pawb i'r cyfarfod gan y cadeirydd, Alwyn M Roberts ac fe gyfeiriodd at lwyddiant diweddar Gŵyl Ddramâu Llanuwchllyn, ac hefyd at yr holl drefniadau ar gyfer dathliadau'r Nadolig yn y pentref.

**3264 Ymddiheuriadau:** Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Heledd Jones, Rhodri Jones ac Arwel Jones.

**3265 Datganiadau o fuddiant:** Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant.

**3266 Cofnodion Cyfarfod Tachwedd 2025:** Cadarnhawyd eu cywirdeb.

**3267 Materion yn codi / materion y Clerc:**

i. Grŵp Cynefin – Datblygiad Maes y Pandy: Derbyniwyd ymateb pellach gan Grŵp Cynefin yn nodi nad ydynt wedi cytuno yn derfynol ar fodel masnachol y datblygiad, eu bod yn nodi pryderon cychwynnol y Cyngor Cymuned, a bod oedi yn y broses o gyflwyno cais cynllunio i'r safle oherwydd materion draenio. Cytunwyd i ymateb trwy wneud cais i'r cyngor fod yn rhan o'r trafodaethau pellach ar y model, ac i holi sut y mae Grŵp Cynefin yn ymateb i bryderon y cyngor.

ii. Deffib / Ciosg Cwm Cynllwyd: Adroddwyd fod y cabinet wedi ei osod, a'r deffib wedi ei gomisiynu. Cytunwyd i symud ymlaen gyda threfniadau sesiwn hyfforddiant i'r ardalwyr ar y defnydd o'r offer, ac gyda datganiad i'r wasg i dynnu sylw ato..

iii. Cerrig Beddi Mynwent yr Eglwys: Cytunwyd i gydweithio gyda Menter Gymunedol Llanuwchllyn i ddangos buddion economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol gwneud defnydd cymunedol o ran isaf y fynwent.

iv. Cofnodi Enwau Tirwedd Lleol: Cafwyd adroddiad gan y Pwyllgor Datblygu ar y gwaith o greu Llwybrau Treftadaeth i'r ardal, a nodwyd fod 3 taith dreftadaeth wedi eu cynllunio. Cytunwyd i symud ymlaen i archebu'r polion a'r arwyddion.

v. Parcio ger Tŷ'n Ddol: Cafwyd trafodaeth ar y bwriad o greu ardal barcio yn y rhan yma o'r pentref, ac fe nodwyd fod angen cofrestru'r tir o dan sylw cyn medru symud ymlaen. Cytunwyd i fwrw ymlaen hefo'r gwaith yma.

vi. Carafanau Drwsnant: Derbyniwyd gwybodaeth gan y Parc Cenedlaethol yn nodi fod defnyddio unrhyw dir ar gyfer hyd at bum carafan teithiol ar y tro gan aelodau'r Camping and Caravanning Club yn ddatblygiad a ganiateir, ar yr amod bod gan y safle dystysgrif eithrio.

**3268 Derbyn adroddiad Cynghorydd Gwynedd:** Derbyniwyd adroddiad gan y Cyng Alan Jones Evans, pryd y nodwyd:

- Fod y bin baw cŵn ger y Gilfach Goffa wedi cael ei atgyweirio.
- Fod Cyngor Gwynedd yn ymwybodol o'r bwlch yn y clawdd ar y Groesffordd.
- Fod ffordd y pentref wedi ei ysgubo ar Ragfyr 1af.
- Fod angen bylb newydd i oleuadau'r Gilfach Goffa.
- Fod gwrthwynebiad wedi codi i'r bwriad o greu bwlch i Bont Lliw a fyddai'n cysylltu Llwybr Tegid gyda Llwybr Cei, hyn oherwydd pryderon am ddiogelwch cerddwyr. Gofynnwyd i Alan ail gysylltu gyda Ymgynghoriaeth Gwynedd i bwysleisio pwysigrwydd y datblygiad, ac i ofyn am gynrychiolydd o'r Cyngor Cymuned mewn unrhyw gyfarfod ar y safle.
- Fod Cyngor Gwynedd am herio penderfyniad yr Uchel Lys i wahardd y defnydd o Erthygl 4 i reoli ail gartrefi ac unedau gwyliau o fewn y sir. Nodwyd nad yw'r penderfyniad yn effeithio ar yr ardaloedd o fewn Parc Cenedlaethol Eryri.

**3269 Derbyniwyd adroddiadau'r is-bwyllgorau:**

1. Pwyllgor Datblygu: Rhoddwyd adroddiad ar gynnydd y prosiect Enwau Lleoedd a'r Llwybrau Treftadaeth. Nodwyd hefyd y bydd angen i'r pwyllgor roi sylw i Gynllun Datblygu Lleol Parc Cenedlaethol Eryri.
2. Pwyllgor Mynwentydd: Nodwyd fod bwriad i alw cyfarfod o'r is bwyllgor yn y flwyddyn newydd i ystyried materion cynnal a chadw a gofalu am y fynwent.
3. Bioamrywiaeth: Rhoddwyd adroddiad o gyfarfod o'r pwyllgor ar Dachwedd 18fed pryd y trafodwyd datblygiad y goedlan ger y Fynwent Newydd gyda chymorth swyddogion Parc Cenedlaethol Eryri a disgyblion Ysgol O M Edwards. Adroddwyd y bydd y pwyllgor yn creu Adroddiad Bioamrywiaeth erbyn diwedd y flwyddyn.
4. Nadolig: Adroddwyd fod Coeden Nadolig wedi ei harchebu, a bod trefniadau i Sion Corn ymweld âr pentref ar Ragfyr 15fed, a chymoedd yr ardal ar Ragfyr 16eg.
5. Asedau: Nodwyd fod angen tynnu sylw Cyngor Gwynedd at y difrod i'r lloches bws ger Pont Llan. Adroddwyd hefyd fod llches bws ar gael gan Gyngor Gwynedd, a allai fod yn ddefnyddiol wrth ddatblygu safle barcio ger Tŷ'n Ddol. Cytunwyd i gael golwg ar y lloches i weld a yw'n addas.
6. Cyllid: Cytunwyd i gynnal cyfarfod o'r pwyllgor nos Fawrth Ionawr 6ed am 7pm.

**3270 Materion Ariannol:** Cyflwynwyd Adroddiad Ariannol i'r cyngor, ac fe gymeradwywyd taliadau fel â ganlyn:

- Cyflog a threth incwm y Clerc.
- Cytundeb glanhau y toiledau.
- Anfoneb Dwr Cymru am wasanaethau dwr y toiledau cyhoeddus.
- Anfoneb Hannah Gwenllian am gynnal gwefan y cyngor am y flwyddyn.
- Anfonebau prosiect Llwybrau Treftadaeth y cyngor. (Pwyll Edwards a Signs Workshop).
- Costau swyddfa'r clerc am 2025.

Nodwyd fod incwm y toiledau cyhoeddus am fis Tachwedd yn £60.44.

3271 **Menter Gymunedol Llanuwchllyn:** Adroddwyd fod Holiadur Defnyddwyr yr Eagles wedi ei ddosbarthu i'r aelodau, a bod y canlyniadau yn cael eu casglu er mwyn paratoi adroddiad o'r ymatebion.

3272 **Cwmni Pum Plwy Penllyn:** Adroddwyd fod car cymunedol y cwmni wedi cyrraedd, yn barod at lansio'r gwasanaeth trafnidiaeth gymunedol ddechrau'r flwyddyn, a bod gwaith Gwedd 2 Canolfan Bro Tegid yn dod yn ei flaen yn dda, gyda'r gwaith o ail bwyntio'r adeilad bron a'i orffen, gyda'r gwaith mewnol i gael ei gwblhau yn ystod mis Ionawr.

3273 **Materion cynllunio:** Nid oedd materion cynllunio i'w trafod.

3274 **Gohebiaeth:**

i. Cynllun Datblygu Lleol y Parc Cenedlaethol: Derbyniwyd gwybodaeth am y broses o baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol, hyn yn cynnwys Holiadur Trigolion, cyfle i gynnig safleoedd i'w datblygu, a chyfarfod o Fforwm Cymunedau'r Parc yn gynnar yn y flwyddyn newydd.
ii. Cyfarfod Blynyddol Un Llais Cymru: Derbyniwyd gwybodaeth am y cyfarfod fydd i'w gynnal yn rhithiol ar Ionawr 21ain. Gofynnwyd i'r clerc fynychu'r cyfarfod.
iii. Hyfforddiant Un Llais Cymru: Derbyniwyd gwybodaeth am wahanol sesiynau hyfforddiant, ac fe gytunodd Alwyn Roberts a Llinos Edwards i fynychu rhai sesiynau.

3275 **Ystyried materion lleol y Cynghorwyr:**

i) Byrst dwr ger y Tyrpeg: Tynnwyd sylw at y byrst dwr yma, ac fe gytunwyd i ddod a'r mater i sylw Dwr Cymru.
ii) Trafodwyd y posibilrwydd o drefnu cinio blynyddol i'r cyngor ym mis Chwefror.

Dymunwyd Nadolig Llawen i bawb, a diolchwyd am eu gwaith ar hyd y flwyddyn.

3276 **Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf:** 6/2/26 am 8pm yn y Neuadd Bentref.

Arwyddwyd…………………………………(Cadeirydd) ____/____/______……………………………(Clerc)